


WILLIAMS, ROBERT HERBERT ('Corfanydd'; 1805 - 1876), cerddor



Enw: Robert Herbert Williams

Ffugenw: Corfanydd

Dyddiad geni: 1805

Dyddiad marw: 1876

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cerddor

Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth

Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd ym mhlwyf Bangor, Sir Gaernarfon. Symudodd y teulu i fyw i Lerpwl pan oedd ef yn fachgen. Dygwyd ef i fyny yn ddilledydd, a chadwai siop yn Basnett Street ar gongl Williamson Square, Lerpwl. Adwaenir ' Corfanydd ' fel cerddor oddi wrth ei dôn ' Dymuniad,' M.S. Dywed iddo ei chyfansoddi ar ei ffordd adref o'i waith, yn 1822; canwyd hi gyntaf dan arweiniad William Evans yng nghapel y Tabernacl, a daeth yn boblogaidd. Ymddangosodd y dôn gyntaf yn *Y Drysorfa*, Ionawr 1835, dan yr enw ' Deisyfiad ' gydag 'R.W. Liverpool,' ac wedi hynny yn *Casgliad o Donau* (J. Ambrose Lloyd), 1843. Darfu i eraill geisio ei hawduriaeth, ond yn *Y Cerddor Cymreig* 1866 a 1868 cafwyd tystiolaeth ' Ieuan Gwyllt,' J. Ambrose Lloyd, y Parch. William Ambrose, a William Evans, mai ' Corfanydd ' oedd ei hawdur. Cyfansoddodd amryw donau, a chyhoeddodd gasgliad bychan o donau dan yr enw *Alawydd Trefriw* yn 1848. Symudodd o Lerpwl i Drogheda, Iwerddon, am rai blynyddoedd, ond daeth yn ôl, ac oherwydd afiechyd ymneilltuodd i fyw i'r Corfandy, Porthaethwy, ac yno y bu farw 20 Tachwedd 1876; claddwyd ym mynwent Llantysilio.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Y Cerddor Cymreig (1861-1873), 1866 a 1868

Y Cerddor, Mai 1893

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 88461565

Wikidata: Q28361519

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Noddi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government